

Astudiaeth Enghreifftiol Gymunedol

Tai Bach y Pentref Llansannan, Gogledd Cymru

Yn 2009 cynhaliodd y cyngor cymuned ym mhentref Llansannan arfarniad cymunedol i geisio deall anghenion, dymuniadau a dyheadau pobl y cylch. Daeth yn amlwg mai'r mater yr oedd pobl yn pryderu fwyaf yn ei gyloch oedd y bygythiad i gai tai bach cyhoeddus y pentref.

Er mwyn ceisio atal hynny, cychwynnodd y pentref drafodaethau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy oedd yn falch i groesawu eu cais i gymryd perchnogaeth o'r tai bach. Fodd bynnag, roedd nifer o orbenion y byddai'n rhaid i'r cyngor cymuned eu hysgwyddo - yn bennaf felly'r angen i godi arian i dalu'r trethi blynyddol (£1800). Felly, penderfynodd y pentref gofrestru'n gwmni cyfyngedig a chanddo statws elusennol, 'Menter Bro Aled', a fyddai'n eu gwneud yn gymwys ar gyfer grantiau a gostyngiadau ar y trethi. Gwnaethant gais llwyddiannus am ad-daliad treth o 100% ac fe gawsant £4000 oddi wrth yr awdurdod lleol tuag at gost adfer y cyfleusterau i safon dderbyniol, arwydd o gefnogaeth Cyngor Conwy i'r fenter leol hon.

Bu'n rhaid i'r pentref wynebu nifer o broblemau wrth ofalu am y tai bach. Roedd difrod gan y tywydd yn golygu fod angen teils newydd ar y to, roedd rhaid atgyweirio'r plymio a gosod ffenestri newydd. Fodd bynnag, gwelsant mai ar yr wyneb yn unig yr oedd y rhan fwyaf o'r difrod, gan nad oedd yr adeilad ei hun yn fwy na tua 25 mlwydd oed.

Cafodd llawer o'r sgiliau oedd eu hangen ar gyfer adfer yr adeilad eu darparu gan bobl y pentref, a chafodd y gwaith ei wneud yn wirfoddol. Mae'r gwaith o lanhau'r tai bach hefyd yn cael ei wneud yn wirfoddol gan y wraig sy'n rhedeg y dafarn leol.

Bu'r tai bach mewn perchnogaeth leol ers blwyddyn erbyn hyn, ac ni chafwyd unrhyw broblemau gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol, er gwaethaf pryderon am graffiti. Eu profiad yw bod y tai bach yn cael eu defnyddio'n helaeth, gan yrwyr cyflenwi a gwasanaethau, yn ogystal â chan gerddwyr ac ymwelwyr eraill yn pasio trwodd. Lledodd y gair am y tai bach i ardaloedd eraill, a daeth yn 'dŷ bach i fynd i'w weld'. Mae'n cael ei ystyried yn elfen bwysig o ran denu ymwelwyr i siopau a gwasanaethau'r pentref.

Yng ngoleuni'r profiad hwn o gymryd cyfrifoldeb am y tai bach, mae Menter Bro Aled yn edrych ar fentrau cymunedol eraill erbyn hyn. Meddai un aelod o'r cyngor cymuned, "Fel mae'n digwydd inni, nid oedd unrhyw ddewis – roeddem naill ai'n ei wneud ein hunain neu fod heb dai bach. Ac unwaith yr ewch i lawr y llwybr o weld cyfleusterau'n cau, bydd y pentref yn dirywio".